# Polisi Hawlfraint

## Datganiad polisi

Mae QAA yn cydnabod bod hawlfraint yn rhan werthfawr o bortffolio eiddo deallusol QAA.

Er mwyn sicrhau bod QAA yn gallu profi parhad hawlfraint yn yr holl waith gwreiddiol a gynhyrchir gan eu gweithwyr a'u hymgynghorwyr, a'u bod bob amser yn gallu cynnal, diogelu a manteisio ar eu hawlfraint, mae QAA yn disgwyl i bob gweithiwr ac ymgynghorydd gydymffurfio â'r polisi hwn.

Nid yw'r polisi hwn yn ffurfio rhan o gontract cyflogaeth, a gellir ei ddiwygio ar unrhyw adeg.

Bydd unrhyw weithredu'n groes i'r polisi hwn yn cael ei gymryd o ddifrif a gall arwain at gamau disgyblu.

## Pwy sy'n cael eu cynnwys yn y polisi hwn?

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i'r holl unigolion sy'n gweithio i'r cwmni ar bob lefel a gradd, gan gynnwys uwch reolwyr, swyddogion, cyfarwyddwyr, gweithwyr cyflogedig, ymgynghorwyr, contractwyr, hyfforddeion, gweithwyr cartref, gweithwyr rhan-amser ac am gyfnod penodol, staff achlysurol a staff asiantaeth.

## Beth sy'n cael ei gynnwys yn y polisi hwn?

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i holl waith gwreiddiol a gynhyrchir ac a gomisiynir gan QAA a'u staff, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i:

- Adroddiadau QAA
- Dulliau a llawlyfrau adolygu
- Deunyddiau, adnoddau, cytundeb aelodaeth, telerau ac amodau, a bathodyn cynllun QE-TNE
- Deunyddiau, llawlyfr, ac adnoddau cysylltiedig ag Adolygiadau Ansawdd Rhyngwladol,
- Graffeg adolygiadau, er enghraifft, Graffeg Adolygiad IQR, Graffeg Adolygiad QAA a Marc Ansawdd QAA, sydd hefyd yn nodau masnach cofrestredig
- Deunyddiau, adnoddau, cytundebau, telerau ac amodau, a bathodynnau Aelodaeth QAA (DU a Rhyngwladol)
- Côd Ansawdd y DU ar gyfer Addysg Uwch
- Canllawiau a meini prawf
- Blogiau
- Cynnwys gwefan
- Delweddau, diagramau, ffilmiau ac animeiddiadau....
- Recordiadau gweminar
- Deunydd cyflwyniadau
- Papurau polisi
- Deunyddiau hyfforddiant
- Papurau ymchwil
- Ymgynghoriadau ac ymatebion i'r ymgynghoriadau
- Adroddiadau blynyddol a dogfennau strategaeth

- Cyhoeddiadau eraill sy’n perthyn i QAA.

## Defnyddio hysbysiad hawlfraint

Yn achos gwaith gwreiddiol sydd i’w gyhoeddi a/neu ei ddosbarthu i drydydd parti, dylid defnyddio hysbysiad hawlfraint yn y ffurf ganlynol:

Hawlfraint © QAA [blwyddyn cyhoeddi].

Os caiff gwaith ei ddiwygio neu ei ddiweddaru, dylid cyfeirio at y dyddiad gwreiddiol a dyddiad y diwygiad neu'r diweddariad yn yr hysbysiad hawlfraint.

## Defnyddio rhybudd hawlfraint ychwanegol

Dylai gweithwyr ystyried a ddylid ychwanegu rhybudd hawlfraint at rai neu bob un o’r deunyddiau/gweithiau cyhoeddedig. Os yw aelod o staff yn ansicr ynghylch cynnwys rhybudd hawlfraint, dylai gysylltu â thîm Marchnata a Digwyddiadau QAA.

## Perchnogaeth hawlfraint mewn gwaith a grëwyd gan weithwyr

Mae contractau cyflogaeth QAA yn cwmpasu perchnogaeth hawlfraint (a hawliau eiddo deallusol eraill) os yw cyflogai'r cwmni yn creu gwaith gwreiddiol yn ystod cyflogaeth. I gael eglurhad ynghylch cwmpas y contract cyflogaeth (neu, er enghraifft, ystyr 'yn ystod cyflogaeth') cysylltwch â'r Rheolwr Marchnata a Digwyddiadau.

## Comisiynu gwaith gan drydydd parti

Os yw gweithiwr yn comisiynu gwaith gan drydydd parti, dylai ystyried a oes unrhyw angen i gael aseiniad hawlfraint, a dylent gyfeirio at Dîm Gwasanaethau Cydymffurfiaeth ac Adolygwyr QAA i drafod perchnogaeth a diogelu hawlfraint (ac unrhyw hawliau eiddo deallusol eraill) yn y gwaith.

Bydd y Tîm Gwasanaethau Cydymffurfiaeth ac Adolygwyr yn cadw cofnodion llawn o unrhyw gontractau, gan gynnwys aseiniadau a thrwyddedau, gyda chontractwyr trydydd parti.

## Hawlfraint trydydd parti

Dylai gweithwyr barchu hawlfraint trydydd parti wrth gyflawni eu dyletswyddau.

Dylai gweithwyr hefyd ystyried a yw hawlfraint trydydd parti yn berthnasol i unrhyw ddeunydd, boed ar ffurf copi caled neu electronig, a ddefnyddir ganddynt yn ystod eu cyflogaeth ac ni ddylent ddefnyddio unrhyw ddeunyddiau oni bai eu bod yn sicr na fyddai’r defnydd ohonynt yn torri unrhyw hawliau trydydd parti.
I gael arweiniad ar faterion hawlfraint, dylai'r gweithiwr gysylltu â'r Rheolwr Marchnata a Digwyddiadau.

## Adrodd am dorri hawlfraint

Os yw gweithiwr yn amau neu'n dod yn ymwybodol bod unrhyw hawlfraint, nod masnach, neu unrhyw hawl eiddo deallusol arall sy’n perthyn i QAA wedi cael eu torri gan unrhyw drydydd parti, dylai hysbysu'r Rheolwr Marchnata a Digwyddiadau neu'r Tîm Gwasanaethau Cydymffurfiaeth ac Adolygwyr ar unwaith gyda manylion llawn am natur y drosedd.

Bydd y Tîm Marchnata a Digwyddiadau’n cadw cofnodion llawn o achosion o dorri amodau, neu amheuaeth o hynny, yn y Log Torri Hawlfraint.

Os yw gweithiwr yn amau bod unrhyw un o'i gydweithwyr wedi torri hawlfraint sy’n perthyn i waith unrhyw drydydd parti, dylai hysbysu'r Rheolwr Marchnata a Digwyddiadau ar unwaith.

Os amheuir neu os canfyddir trosedd, bydd y Rheolwr Marchnata a Digwyddiadau yn cysylltu â’r person/sefydliad dan sylw ac yn gofyn i’r drosedd gael ei thynnu’n ôl/ei dileu neu ei chywiro o fewn terfyn amser y cytunir arno.

Os na cheir ymateb neu os na chymerir y camau gofynnol, bydd QAA yn cyhoeddi hysbysiad terfynu ac ymatal i'r sawl sy'n torri hawlfraint QAA ac yn ceisio cyngor cyfreithiol os bydd angen cymryd camau pellach.

## Delio â cheisiadau am gael defnyddio neu atgynhyrchu gwaith QAA

Dylid cyfeirio unrhyw geisiadau mewnol neu allanol am ganiatâd i ddefnyddio neu atgynhyrchu unrhyw rai o ddeunyddiau QAA at y Rheolwr Marchnata a Digwyddiadau neu'r Rheolwr Dylunio a Chynhyrchu i'w hystyried.

Bydd QAA fel arfer yn:

- caniatáu ailddefnyddio ar sail cydnabyddiaeth o hawlfraint QAA
- caniatáu ailddefnyddio rhannau neu gyhoeddiadau llawn at ddibenion personol, addysgol ac ymchwil heb fod angen gofyn am drwydded benodol
- peidio â chaniatáu i unrhyw un ail-ddefnyddio ein gwefannau yn eu cyfanrwydd
- caniatáu ailddefnyddio electronig, ond bob amser yn annog defnyddwyr i osod hyperddolenni i'w gwefan
- peidio â chaniatáu i unrhyw ddefnyddiwr werthu eu gwybodaeth yn gyfan gwbl.

Yn achos ceisiadau i ailddefnyddio ein gwybodaeth, bydd QAA yn:

- trin pob cais tebyg yn gyfartal
- ymateb i geisiadau arferol o fewn 20 diwrnod gwaith neu nodi pryd y bydd yn cymryd mwy o amser i ymdrin ag ymatebion mwy cymhleth
- ystyried codi tâl dim ond lle mae ymgeiswyr yn ceisio budd masnachol.

Bydd y Tîm Gwasanaethau Cydymffurfiaeth ac Adolygwyr yn cadw cofnodion llawn o'r ceisiadau ac unrhyw aseiniadau, trwyddedau neu fathau eraill o ganiatâd sy’n deillio o’r cais yn y Gofrestr Hawlfraint.

## Monitro ac adolygu'r polisi hwn

Bydd y polisi hwn yn cael ei adolygu o leiaf bob dwy flynedd i sicrhau ei fod yn parhau i fodloni gofynion cyfreithiol ac yn adlewyrchu arfer gorau.

Diweddarwyd ddiwethaf - Mai 2024

© Yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch 2024
Rhifau elusen gofrestredig 1062746 a SC037786
www.qaa.ac.uk